



# Ffordd newydd o Gefnogi Teuluoedd

Mae'n gyffrous i Teuluoedd yn Gyntaf allu cyflwyno ein Pencampwr Gofalwyr a'r Noddwr Uwch-ofalwyr; maen nhw wedi bod yn brysur yn casglu tystiolaeth ar gyfer eu Uwch-achrediad Gofalwr-gyfeillgar, gan adlewyrchu'r holl waith gwych mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn ei wneud gyda gofalwyr ifanc ym Mlaenau Gwent.



## Cari Rofer - Noddwr Uwch-ofalwyr

Rwy'n addo gwneud fy ngorau i sicrhau fod Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu gwasanaeth rhagorol i'n gofalwyr ifanc ym Mlaenau Gwent. Fe wna i barhau i ymdrechu i ddatblygu gwasanaethau mewn partneriaeth ag iechyd ac addysg i adnabod, cefnogi a galluogi'r gofalwyr ifanc o fewn ein cymunedau.



## Maria Perkins - Pencampwr Gofalwyr

Rwy'n addo gweithio'n galed i sicrhau fod gofalwyr ifanc yn cael eu hadnabod ac yn cael cynnig y gefnogaeth maen nhw'n eu haeddu ac yn cael eu cydnabod am y cyfraniadau gwerthfawr maen nhw'n eu gwneud i'w hanwyliaid a'n cymunedau.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig ystod o gefnogaeth i ofalwyr ifanc ym Mlaenau Gwent; os hoffech chi wybod mwy am ein cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc a/neu'r gefnogaeth ychwanegol rydyn ni'n ei chynnig, cysylltwch â ni ar **01495 355584** neu e-bostio **FamiliesFirstDuty@Blaenau-gwent-gov.uk**

